Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

# CYNRYCHIOLAETHAU A WNAED MEWN PERTHYNAS AG ARGYMHELLION DROS DRO AR GYFER SIR GADWEDIG DE MORGANNWG

## Crynodeb o'r Cynrychiolaethau

**Mai 2004**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

**Crynodeb o'r Cynrychiolaethau a wnaed mewn perthynas ag argymhellion dros dro y Comisiwn ar gyfer Sir Gadwedig De Morgannwg a gyhoeddwyd ar 5 Ionawr 2004**

## CYMERADWYAETH

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyngor Cymuned Pentyrch | Nid oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig i symud Pentyrch, Creigiau a Gwaelod-y-garth i etholaeth Gorllewin Caerdydd. |
| 2 | Plaid Geidwadol Cymru | Yn cefnogi'r cynigion ar gyfer De Morgannwg |
| 3 | Llafur Cymru | Yn cefnogi pob agwedd ar yr argymhellion dros dro yn llwyr. |
| 4 | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Yn cefnogi'r cynigion mewn perthynas â De Morgannwg. |
| 5 | Cymdeithas Geidwadol Pen-y-bont ar Ogwr | Yn ystyried bod trosglwyddo cymunedau Ewenni a Saint-y-brid i etholaeth Bro Morgannwg yn gwneud synnwyr o ran daearyddiaeth a'r gymuned. |
| 6 | Etholaeth Gogledd Caerdydd y Blaid Lafur | Yn cytuno'n llwyr â'r cynigion ar gyfer Gogledd Caerdydd. O'r farn bod y ffiniau presennol yn rhesymegol ac y gellir eu cyfiawnhau. |
| 7 | Plaid Lafur De Caerdydd a Phenarth | Yn cefnogi'r cynigion yn gyffredinol ar gyfer De Morgannwg. Yn cymeradwyo cynnwys Pentyrch a Chreigiau/Sain Ffagan yng Ngorllewin Caerdydd a Saint-y-brid a Llandŵ/Ewenni yn etholaeth Bro Morgannwg. |
| 8 | Etholaeth Gorllewin Caerdydd y Blaid Lafur | Yn cymeradwyo'r cynnig i gynnwys adrannau etholiadol Creigiau/Sain Ffagan a Phentyrch yn etholaeth Gorllewin Caerdydd. |
| 9 | Ms Lorraine Barrett AC | Yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer etholaeth De Caerdydd a Phenarth. Yn ystyried bod yn rhaid cynnwys Pentyrch a Chreigiau/Sain Ffagan yng Ngorllewin Caerdydd a Saint-y-brid a Llandŵ/Ewenni yn etholaeth Bro Morgannwg. |
| 10 | Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC | Yn fodlon ar y cynigion ar gyfer Gorllewin Caerdydd. |

## GWRTHWYNEBIAD

| | | |
|---|---|---|
| 11 | Cyngor Tref Penarth | Yn gwrthwynebu'r cynigion i drosglwyddo Sili o Fro Morgannwg i Dde Caerdydd gan nad oes ganddi ddim yn gyffredin â'r ardal hon. |
| 12 | Cyngor Cymuned Sili | Yn gwrthwynebu'r cynigion ynghylch Sili oherwydd maint yr etholaeth arfaethedig ac am resymau cymdeithasol, hanesyddol a rhesymegol. Ystyrir bod cefn gwlad Sili yn rhan o'r Fro ac nid yn rhan o ddinas Caerdydd. Yn dymuno cael chweched etholaeth yn seiliedig yn y Fro. |

| | | |
|---|---|---|
| 13 | Cangen Ewenni a’r Fro y Blaid Lafur | Yn gwrthwynebu trosglwyddo Ewenni, Y Wig a Saint-y-brid o Ben-y-bont ar Ogwr i Fro Morgannwg am resymau hanesyddol, diwylliannol, daearyddol a chymunedol. Yn awgrymu dewis arall, sef bod Penarth yn symud i’r Fro a rhannau gorllewinol y Fro yn symud i Ben-y-bont ar Ogwr. |
| 14 | Etholaeth Pontypridd y Blaid Lafur | Yn gwrthwynebu’r cynigion sy’n effeithio’n benodol ar Greigiau, Pentyrch a Gwaelod-y-garth. |
| 15 | Dr Kim Howells AS | Pryderon ynghylch symud Creigiau a Phentyrch i etholaeth Gorllewin Caerdydd. |
| 16 | Ms Jane Hutt AC | Amheuon mewn perthynas â Ward Sili yn symud i Dde Caerdydd a Phenarth a symud Saint-y-brid i Fro Morgannwg. Hefyd o’r farn bod Etholaeth Bro Morgannwg wedi cyrraedd ei uchafswm o ran maint etholaeth. |
| 17 | Dr E A Bowers | Yn gwrthwynebu trosglwyddo Saint-y-brid o Ben-y-bont ar Ogwr i Fro Morgannwg am resymau daearyddol a diwylliannol. Byddai’n well ganddo gynnwys Mynydd Cynffig a’r Pîl o fewn Aberafan, oherwydd cysylltiadau hirsefydlog. |
| 18 | Cyng. Anthony M Ernest | Yn gwrthwynebu’r cynigion i symud Sili o etholaeth y Fro i Dde Caerdydd a Phenarth gan fod cefn gwlad Sili â chysylltiadau cryf â’r Fro ac nid oes ganddi lawer yn gyffredin â dinas Caerdydd. |

## CYMERADWYAETH RHANNOL/GWRTHWYNEBIAD RHANNOL

| | | |
|---|---|---|
| 19 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg | Yn cefnogi cynnwys Saint-y-brid a Llandŵ/Ewenni ym Mro Morgannwg ond yn gwrthwynebu ychwanegu Sili at Dde Caerdydd a Phenarth. |
| 20 | Mr D Fox | Yn awgrymu rhoi enw arall i etholaeth Vale of Glamorgan sef etholaeth Glamorgan Vale ac yn cymeradwyo Penarth yn ran o etholaeth Caerdydd. |

Y prif wrthwynebiad i’r argymhellion dros dro yw trosglwyddo adran etholiadol Sili o Etholaeth Bro Morgannwg i Etholaeth De Caerdydd a Phenarth. Mae’r tabl canlynol yn rhoi manylion y cynrychiolaethau a wnaed mewn perthynas â’r mater hwn a’r cynrychiolaethau sy’n cefnogi’r argymhellion dros dro ar gyfer yr ardal hon.

| | Cynrychiolaethau | Cyfanswm |
|---|---|---|
| **Gwrthwynebiad** | 11,12,16,18,19 | 5 |
| **Cymeradwyaeth** | 2, 3, 4, 7(â chafeatau), 9 | 5 |

Tŷ Caradog, 1-6 Plas Sant Andreas, Caerdydd CF10 3BE
Caradog House, 1-6 St Andrew’s Place, Cardiff CF10 3BE
☎ (029) 2039 5031 Fax/Ffacs (029) 2039 5250
e-mail: bcomm.wales@wales.gsi.gov.uk / e-bost : comffin.cymru@wales.gsi.gov.uk
Web Site: www.bcomm-wales.gov.uk Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk